

YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR

CYMRU

MYND YMHELLACH: ARWEINIAD GOFALWYR I BRIFYSGOLION YNG NGHYMRU



YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR

CYMRU

MWY AM YR YMDDIRIEDOLAETH GOFALWYR

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn rhan o'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr, elusen genedlaethol uchelgeisiol sy'n gweithio i wella'r gefnogaeth a'r gwasanaethau i ofalwyr di-dâl trwy:

- Gydabod a dathlu'r cyfraniadau hanfodol y mae gofalwyr yn eu gwneud
- Codi ymwybyddiaeth o'r rhwystrau a wynebir gan ofalwyr o bob oed
- Gweithio gyda gwneuthurwyr penderfyniadau i sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael i alluogi gofalwyr i fyw bywydau hapus a boddhaus

Gweithiwn gyda Phartneriaid Rhwydwaith – gwasanaethau lleol sy'n darparu cefnogaeth uniongyrchol i ofalwyr – gan wneud yn fawr o'r profiad, arbenigedd ac arloesiadau sydd gennym rhyngom.

Yn ystod 2018-19 cyrhaeddodd Rhwydwaith Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru dros **36,000 o ofalwyr**, cyflogodd 520 o staff ac fe'i cefnogwyd gan 427 o wirfoddolwyr.

Gyda'n Partneriaid Rhwydwaith, mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yn darparu cymorth ymarferol a gwybodaeth i ofalwyr ac i'r sawl sy'n gweithio gyda nhw, gan gynnwys ysgolion, gweithwyr cymdeithasol, nyrsys, fferyllwyr a ffisiotherapyddion. Gweithiwn hefyd i geisio dylanwadu ar wneuthurwyr penderfyniadau, y cyfryngau a'r cyhoedd i hyrwyddo, amddiffyn a chydabod y cyfraniad y mae gofalwyr yn ei wneud, a'r gefnogaeth maen nhw'n ei haeddu.



Cysylltu â ni

wales@carers.org

0300 772 9702

Carers.org/wales

[@CarersTrustWal](https://twitter.com/CarersTrustWal)



MWY AM SEFYDLIAD WATERLOO

Mae Sefydliad Waterloo yn sefydliad annibynnol sy'n rhoi grantiau a grëwyd yn 2007, ac mae'n gweithio o Gaerdydd, Cymru. Mae Sefydliad Waterloo yn rhoi grantiau i fudiadau yng ngwledydd Prydain a thros y byd, ac mae'n ymddiddori'n arbennig mewn prosiectau sy'n helpu'n fydeang, yn enwedig felly yn yr ardaloedd sy'n dioddef o ddiffyg

cyfleoedd a phrinder cyfoeth a'r defnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol y byd. Mae Sefydliad Waterloo yn helpu'r gymuned fydeang a'r gymuned leol yma yng Nghymru.

Ariennir yr arweiniad hwn gan grant Mae Sefydliad Waterloo Cymru, sy'n ceisio cefnogi rhaglenni sy'n helpu gofalwyr di-dâl.

DIOLCHIADAU

Hoffem ddiolch i Mae Sefydliad Waterloo am eu grant caredig a hael sydd wedi'n galluogi i gyflawni rhaglen Mynd Ymhellach a chyhoeddi'r arweiniad hwn.

Hoffem ddiolch hefyd i staff o'r holl brifysgolion a Phartneriaethau Ymestyn yn Ehangach yng Nghymru ac rydym yn eu cymell am y systemau sydd ganddynt i sicrhau

bod nifer cynyddol o ofalwyr yn cael eu hannog i gynnig am le yn y brifysgol ac yn cael eu cefnogi i lwyddo yn eu bywyd academaidd.

Yn bennaf oll, hoffem ddiolch i'r holl ofalwyr, o Gyngor Ieuencid yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr ac o brifysgolion ledled Cymru, sydd wedi rhannu eu barn, profiadau a chyngor i helpu llunio'r adnodd pwysig hwn.

CYNNWYS

Mwy am yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr	2
Mwy am Sefydliad Waterloo	3
Diolchiadau	3
Cyflwyniad	5
Eich hawliau yng Nghymru	6
Mynd Ymhellach gydag Ymestyn yn Ehangach	7
Sut allwch gynnig am le mewn prifysgol trwy UCAS	9
Prifysgol Aberystwyth	11
Prifysgol Bangor	14
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	18
Prifysgol Caerdydd	22
Y Brifysgol Agored	26
Prifysgol Abertawe	30
Prifysgol De Cymru	33
Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant	37
Prifysgol Wrecsam Glyndŵr	40

CYFLWYNIAD

Credwn yn gryf fod pob gofalydd yn haeddu cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddyn nhw.

I rai, bydd hyn yn cynnwys cyngor ymarferol a chymorth ariannol i'w galluogi i wneud cais am a chyflawni mewn addysg uwch. Dangosodd **astudiaeth** a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr a Phrifysgol Nottingham yn 2013 fod gofalwyr 4 gwaith yn fwy tebygol o adael na myfyrwyr heb gyfrifoldebau gofal .

Fel rhan o'n prosiect Mynd Ymhellach a arianwyd gan Mae Sefydliad Waterloo, mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi gweithio gyda phob prifysgol yng Nghymru i roi yn eu lle systemau a pholisïau syml a gafodd effaith gadarnhaol, gynaliadwy ar ddeilliannau a phrofiadau gofalwyr mewn addysg uwch yng Nghymru. Buom yn gweithio â 180 o ofalwyr ifanc yn ystod ein prosiect, ac aeth llawer ohonynt ymlaen i gael profiadau llwyddiannus a difyr yn y brifysgol.

Trwy'r arweiniad hwn ceisiwn gynnig gwybodaeth ac anogaeth i gymaint mwy o ofalwyr i ehangu eu gorwelion ac i deimlo'n hyderus y gallant, gyda chefnogaeth, lwyddo yn y brifysgol. Datblygwyd yr arweiniad hwn gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, mewn partneriaeth gyda phob prifysgol a phartneriaethau Ymestyn yn Ehangach yng Nghymru i helpu

gofalwyr i ddod i wybod mwy am y gefnogaeth sydd ar gael iddynt erbyn hyn. **Mae pob prifysgol** yn croesawu ceisiadau gan ofalwyr ac yn cydnabod y sgiliau a phrofiadau gwerthfawr a gawsant trwy eu rôl ofalu.

Deallwn fod cyflawni eich nodau addysgol neu academaidd ar yr un pryd â gofalu am rywun yn gallu bod yn heriol. Trwy gydol yr arweiniad hwn fe welwch fanylion am y gefnogaeth sydd ar gael ymhob prifysgol yng Nghymru, yn ystod eich astudiaethau ac yn ystod y broses gwneud cais. Rydym hefyd wedi cynnwys manylion cyswllt cyfredol ymhob prifysgol, pe bai gennych unrhyw gwestiynau eraill am eich dewisiadau.

Mae'r llawlyfr hwn hefyd yn cynnwys syniadau a phrofiadau defnyddiol gan ofalwyr eraill a gafodd gyfnod llwyddiannus a boddhaus mewn addysg uwch.

Gobeithiwn y bydd yr adnodd yn ddefnyddiol a pherthnasol ichi. Y bwriad yw y bydd y wybodaeth a rennir yn yr arweiniad hwn a phrofiadau gofalwyr eraill sydd wedi cyflawni mewn addysg uwch yn fan cychwyn addawol ichi i'ystyried mynd i brifysgol law yn llaw â'ch rôl ofalu.

EICH HAWLIAU YNG NGHYMRU

Dylid deall yr arweiniad hwn yng nghydestun rhai hawliau cyfreithiol penodol sy'n bodoli i gefnogi gofalwyr o bob oed i wneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw law yn llaw â'r rôl ofalu.

O dan **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**, mae gan bob gofalydd yng Nghymru yr hawl i gael asesiad o'u hanghenion gan eu cyngor lleol. Pan mae'r asesiad yn adnabod anghenion cymwys, rhaid darparu cefnogaeth berthnasol. Gallai hynny gynnwys cefnogaeth fyddai'n ei gwneud yn haws i fynd i brifysgol.

Os ydych yn byw yng Nghymru ac os hoffech ystyried y cyfle i astudio mewn prifysgol, gallwch gysylltu â'ch cyngor lleol i gael gwybodaeth a chyngor am y math o gymorth allai fod ar gael i'ch helpu i wneud hynny. Nid oes rhaid ichi fyw gyda'r person rydych yn gofalu amdanynt na gofalu

am hyn a hyn o oriau i gael eich ystyried yn ofalydd. Os nad ydych yn siwr ymhle y gallwch ddod o hyd i wybodaeth, cyngor a chefnogaeth trwy eich cyngor lleol gallwch ein ebostio yn wales@carers.org neu ffoniwch ni ar 0300 772 9702.

Ydw i'n ofalydd?

Mae gofalydd yn unrhyw un sy'n gofalu, yn ddi-dâl, am gyfaill neu aelod o'r teulu, sydd oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu gaethineb, yn methu ymdopi heb eu cefnogaeth.

Beth mae gofalydd yn ei wneud?

Mae gofalwyr yn cefnogi'r person maen nhw'n gofalu amdano/i mewn cymaint o ffyrdd, megis, ond heb fod yn gyfyngedig i'r enghreifftiau isod:

- Tasgau ymarferol, fel coginio, gwaith tŷ a siopa
- Gofal corfforol, megis helpu rhywun i godi o'r gwely
- Cefnogaeth emosiynol
- Gofal personol, megis helpu rhywun i wisgo neu fynd i'r tŷ bach
- Rheoli cyllideb y teulu a chasglu rhagnodiadau
- Helpu rhywun i gymryd eu meddyginiaeth
- Helpu rhywun i gyfathrebu

MYND YMHELLACH GYDAG YMESTYN YN EHANGACH

Mae rhaglen Ymestyn yn Ehangach, ariennir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, anelu at helpu mwy o bobl i fynd i goleg neu brifysgol. Trwy gyfres o weithgareddau addysgiadol a chyflwyno gwybodaeth gyda disgyblion ysgol, teuluoedd ac oedolion, mae'r prosiect yn grymuso pobl na fyddent fel arall yn ystyried addysg uwch i ddysgu mwy am beth allai mynd i brifysgol neu goleg ei olygu iddyn nhw.

Mae tair Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach sydd rhyngddynt yn gwasanaethu Cymru gyfan. Mae pob partneriaeth yn cynnig gweithgareddau gwahanol i ofalwyr, megis gweithdai cael blas o bynciau, ymweliadau â phrifysgolion ac ysgolion haf.

Mae holl bartneriaethau Ymestyn yn Ehangach yn gweithio i gefnogi gofalwyr a gallwch gysylltu â'ch Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach leol i gael gwybod pa weithgareddau a chymorth maen nhw'n eu cynnig i ofalwyr yn eich ardal chi.

© Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach De Orllewin Cymru





Rhaglen Gogledd a Chanolbarth Cymru Ymestyn yn Ehangach

yn ceisio cael gwared â rhwystrau
i addysg uwch trwy nifer o
weithgareddau gwahanol yng

Ngheredigion, Powys, Gwynedd,
Wrecsam, Ynys Môn, Conwy, Sir
Ddinbych. Gallwch gymryd rhan
mewn gweithgareddau Ymestyn
yn Ehangach ym Mhrifysgol
Aberystwyth, Prifysgol Bangor a
Phrifysgol Wrecsam Glyndŵr.

01248 383883



Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach De Orllewin Cymru

yn cynnig dyddiau blasu, clybiau
ar ôl ysgol a phrofiadau preswyl i
ofalwyr ifanc yn Abertawe,

Castell-nedd Port Talbot, Sir
Gaerfyrddin a Sir Benfro. Mae'r
prosiect hwn yn cynnal
gweithgareddau mewn ysgolion
yn ogystal ag ym **Mhrifysgol
Abertawe** ac ym **Mhrifysgol
Cymru Y Drindod Dewi Sant**.

01792 602128



First Campus

yw'r rhaglen Ymestyn yn
Ehangach yn Ne Ddwyrain
Cymru, ac mae'n cynnig
prosiectau a phrofiadau dysgu
cynhwysol ym Mhenybont ar
Ogwr, Merthyr Tudful, Caerffili,
Rhondda Cynon Taf, Caerdydd,
Bro Morgannwg, Casnewydd,

Sir Fynwy, Torfaen a Blaenau
Gwent. Cynhelir gweithgareddau
a digwyddiadau preswyl
addysg uwch First Campus ym
**Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol
Metropolitan Caerdydd a
Phrifysgol De Cymru**.

01443 482550





SUT ALLWCH GYNNIG AM LE MEWN PRIFYSGOL TRWY UCAS

Beth yw UCAS?

UCAS yw Gwasanaeth canolog Derbyniadau Prifysgolion a Cholegau y mae angen i ddarpar fyfyrwyr ei ddefnyddio er mwyn gwneud cais i bob sefydliad addysg uwch yn y DG ac eithrio'r Brifysgol Agored, gan fod ganddi hi ei phroses gwneud cais ei hunan. Mae UCAS yn cynnig cefnogaeth a chynghor i bobl o bob oed a chefnidir sy'n ystyried addysg uwch, boed yn rhaglenni israddedig ac ôl-radd neu brentisiaethau a hyfforddiant athrawon.

Mae **gwefan UCAS** yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y broses o wneud cais, yn ogystal â gwybodaeth gyffredinol am gyrsiau prifysgol, cymorth ariannol a bywyd myfyrwyr.

Canolbwynt UCAS

Mae gwybodaeth ryngweithiol, wedi'i theilwra ar gael trwy **Hwb UCAS** a lanswyd yn ddiweddar, gofod mewngofnodi lle y gallwch reoli eich ceisiadau, creu rhestr o hoff gyrsiau, cofnodi dyddiadau cau pwysig, dysgu am ddyddiau agored a sgwrsio â myfyrwyr eraill. Mae hwn yn declyn defnyddiol ar gyfer archwilio eich dewisiadau a chael y wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud penderfyniad am addysg uwch.

Oeddet ti'n gwybod?



Gallwch ddarganfod pa arian sydd ar gael yn 2020-21 ar wefan **Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

Cyn mynd i'r Brifysgol



Cefais fy annog gan fy athrawes a'm gweithiwr cefnogi gofaluwr ifanc i wneud cais. 'Doeddwn i erioed wedi meddwl y gallai fod yn ddewis imi. Roedd rhoi fy mhrofiad o fod yn ofalydd ifanc yn fy natganiad personol yn fy helpu i sefyll allan. Helpodd y dyddiau agored fi i benderfynu beth oedd orau imi a daeth fy athrawes gyda fi gan na allai fy mam ddod. Fe ofynnodd hi'r holl gwestiynau am ba gefnogaeth oedd ar gael imi fel gofalydd. Helpodd dawelu fy ofnau a dyna sut y gwyddwn mai Caerdydd oedd y brifysgol imi.

Sarah, myfyrwraig ym Mhrifysgol Caerdydd



Pa gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr?

Mae UCAS wedi creu **tudalen gwybodaeth a chyngor** yn benodol ar gyfer myfyrwyr a chanddynt gyfrifoldebau gofal. Os ydych yn darparu gofal di-dâl i aelod o'r teulu, partner neu gyfaill, efallai y gallech gael cymorth ychwanegol yn ystod eich astudiaethau, megis dyddiadau cau hyblyg, cyngor ar lesiant neu gymorth ariannol.



Syniad safonol

Gofynnwch am help! Pan yn meddwl am wneud cais i brifysgol, rhowch wybod i'r brifysgol am eich amgylchiadau, fel y gallwch gael cefnogaeth a gwybodaeth sydd wedi'u teilwra i'ch anghenion chi. Efallai hefyd y bydd eich ysgol, cyflogydd neu wasanaeth gofalwyr lleol yn gallu eich helpu gyda'ch datganiad personol neu gyda rheoli eich amser os gofynnwch am eu cymorth.

Eich datganiad personol

Mae'r **datganiad personol** yn rhan bwysig o'r broses gwneud cais ac mae'n rhoi cyfle ichi ddweud pam eich bod wedi dewis cwrs penodol a beth yw eich profiad a'ch sgiliau perthnasol. Mae UCAS yn awgrymu eich bod, fel gofalydd, yn debygol o feddu ar nifer o sgiliau a phrofiadau fyddai'n cryfhau eich datganiad personol.

Mae UCAS, ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr, wedi datblygu **arweiniad datganiad personol** i helpu gofalwyr i ysgrifennu eu datganiad personol, sy'n cynnwys awgrymiadau gwerthfawr ar gyfer gofalwyr sy'n ystyried mynd i brifysgol.

Manylion cyswllt

Canolfan Profiad Cwsmeriaid
0371 468 0468



PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

Bu Prifysgol Aberystwyth, sydd wedi'i lleoli ar arfordir gorllewinol Cymru rhwng Bae Ceredigion a Mynyddoedd y Cambrian, yn sefydliad uchel ei barch ers ei sefydlu yn 1872 a hi yw'r brifysgol orau ar gyfer bodlonrwydd myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr, ac mae ei **chyfradd bodlonrwydd cyffredinol yn 90%**. Ethos y brifysgol yw bod dod o hyd i'ch prifysgol berffaith yn golygu dod o hyd i'r cydbwysedd gorau rhwng addysg dda a bywyd myfyrwyr difyr.

© Tanya Dedyukhina



Pa gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr?

Er 2017, mae Prifysgol Aberystwyth wedi cynnig cymorth pwrpasol i ofalwyr ifanc, gadawyr gofal a'r sawl sydd "ar eu pen eu hunain" (wedi ymddieithrio o'u rhieni). Mae'r cymorth pwrpasol a gynigir i ofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn cynnwys:

- Cymorth i **ymweld â'r brifysgol** cyn ac wrth wneud cais
- **Sesiwn cwrdd a chyfarch anffurfiol** yn ystod yr Wythnos Groeso
- **Bwrsari** gwerth hyd at **£1500** (yn dibynnu ar yr amgylchiadau). Trowch at **Lawlyfr Ysgoloriaethau'r** Brifysgol i gael mwy o wybodaeth
- **Mentor cyfoed** wedi'i hyfforddi yn ystod eich blwyddyn gyntaf, os mai dyna'ch dymuniad
- Nifer o wasanaethau cefnogi myfyrwyr ar gael o gyfnod ymrestru hyd at raddi

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cydnabod y bydd anghenion myfyrwyr a chanddynt gyfrifoldebau gofal yn amrywio o berson i berson. Mae eu **Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr** pwrpasol ar gael i unrhyw ddarpar fyfyrwyr neu fyfyrwyr presennol ar gyfer trafod eu hanghenion penodol.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymfalchio yn y lefel uchel o gefnogaeth sydd ganddi i fyfyrwyr, mewn amgylchedd diogel a gofalgarg. Ceisiant fod yn hyblyg ac annog pobl o bob oed, sefyllfa a chefnidir i lwyddo mewn addysg uwch.

Cefnogaeth ar gael

“

Roedd y gefnogaeth ychwanegol, yn ariannol ac fel arall, wedi gwneud y gwaith o ofalu am fy mam a'i chefnogi pan roedd angen imi wneud gymaint yn rhwyddach. Roeddwn yn teimlo fod rhywun yn deall beth oedd ei angen arna i a bod ganddynt yr amser i roi cefnogaeth imi yn fy rôl 'gofalydd ifanc', gan gynnwys cysylltu â'r adran pan roedd angen hoe arna i.

”

Myfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth

Iechyd a Llesiant

Yn ystod eich astudiaethau, mae'n bwysig gofalu am eich iechyd a llesiant. Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig **Gwasanaeth Llesiant Myfyrwyr** sy'n defnyddio technegau anelu-am-ateb er mwyn adeiladu gwytnwch a datblygu pecyn o sgiliau i helpu datrys materion yn ymwneud â bywyd prifysgol a thu hwnt yn effeithiol.



97%

o raddedigion Prifysgol Aberystwyth mewn gwaith neu addysg bellach chwe mis ar ôl graddio

Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch 2018

Prifysgol y Flwyddyn Cymru

Times' Canllaw Prifysgolion Da 2020

Y dringwr uchaf yng ngwledydd Prydain

The Guardian's Canllaw Prifysgol 2019

Manylion cyswllt

<p>Prifysgol Aberystwyth Cefnogi Myfyrwyr Campws Penglais Canolfan Groeso Aberystwyth SY23 3FB</p> <p>01970 621761 01970 622087</p> <p>  </p>	<p>Tîm Recriwtio Myfyrwyr Campws Penglais Canolbwynt Cwrt Mawr Aberystwyth SY23 3AN</p> <p>01970 623111</p> <p> </p> <p>I gael mwy o wybodaeth a chefnogaeth cysylltwch â Teleri Lewis, Rheolydd Ehangu Cyfranogiad</p> <p></p>
--	---



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

PRIFYSGOL BANGOR

Fe'i sefydlwyd yn 1884, ac mae gan Brifysgol Bangor draddodiad hir o ragoriaeth academiaidd a ffocws cryf ar brofiad myfyrwyr. Mae tua 10,000 o fyfyrwyr yn astudio yn y Brifysgol ar hyn o bryd. Mae **Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2018 yn rhoi Bangor ymhlith y 10 brifysgol orau yn y DG ar gyfer bodlonrwydd myfyrwyr.**

Lleolir Prifysgol Bangor ar arfordir gogleddol Cymru, rhwng Eryri a'r môr – lleoliad gwych i fyfyrwyr sy'n dilyn chwaraeon, a gweithgareddau awyr agored yn enwedig. Yn 2016, enwyd Gogledd Cymru y 4ydd rhanbarth gorau yn y byd i ymweld â nhw gan ganllaw teithio Lonely Planet oherwydd ei lleoliad trawiadol.

Pa gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr?

Cyn ichi ddechrau eich cwrs

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i gefnogi gofalwyr a darparu gwybodaeth ac arweiniad yn ogystal â chefnogaeth ariannol a bugeiliol ar gyfer darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol. Mae **Canolfan Ehangu Mynediad** y Brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth gyda gwahanol fudiadau i fynd i'r afael â'r rhwystrau amrywiol y mae myfyrwyr a chanddynt gyfrifoldebau gofal yn eu hwynebu, rhwystrau all atal gofalwyr rhag cyflawni eu llawn botensial.

- Digwyddiadau preswyl i ofalwyr. Os ydych yn ofalydd 16 i 25 oed, gallwch fynd i'r digwyddiad 3-diwrnod hwn a drefnir i roi blas ichi o fywyd prifysgol ac i roi gwybod ichi am y gefnogaeth wedi'i theilwra y gallwch fanteisio arni ym Mhrifysgol Bangor. Mae fideo o sesiwn breswyl 2019 ar gael ar **dudalen Facebook Canolfan Ehangu Mynediad Bangor**
- **Llawlyfr Gofalwyr** ar gyfer darpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol o

bob oed yn cyflwyno gwybodaeth ar dai, cwnsela, cymorth ariannol a manylion cyswllt defnyddiol

- **Cysylltu gofalwyr yn y gymuned:** cymerwn ran yn Wythnos Gofalwyr, gan gynnwys cynnal cynadleddau a digwyddiadau megis 'Grymuso Gofalwyr mewn Addysg a Gwaith'
- Trefnu cynadleddau a gweithdai i ddatblygu ymhellach y cymorth i ofalwyr di-dâl o bob oed a chefnidir
- Cefnogi digwyddiadau **'Gofalwyr mewn Ysgolion'**

Grymuso gofalwyr mewn addysg a gwaith

Yn 2019, cynhaliodd Prifysgol Bangor mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr gynhadledd genedlaethol lwyddiannus i drafod eiriol a chreu cyfleoedd i ofalwyr mewn addysg a gwaith.

“

Imi, roedd y digwyddiad preswyl a'r blas o fywyd Prifysgol Bangor yn gyfle i greu atgofion. Rwyf eisiau mynd yn ôl.

Gofalydd ifanc

”

Yn ystod eich astudiaethau

Ar y cyd ag **Undeb y Myfyrwyr**, gwasanaethau **Cefnogi Myfyrwyr** ac awdurdodau lleol, mae'r **Ganolfan Ehangu Mynediad** wedi datblygu nifer o gynlluniau ar gyfer gofalwyr sy'n cynnwys:

- **Polisi** pwrpasol **ar gefnogi myfyrwyr sy'n ofalwyr**
- Adeiladu **grwpiau rhwydwaith** i annog gofalwyr yn astudio ym Mhrifysgol Bangor i gynnal a chefnogi ei gilydd
- **Bandyn garddwrn** ar gyfer unrhyw fyfyrwr sy'n dymuno gwisgo un, er mwyn osgoi gorfod esbonio dro ar ôl tro y rhesymau dros orfod gadael dosbarth ar fyr rybudd neu gymryd galwad ffôn

“

Deuthum o hyd i gymorth ariannol, grwpiau cymdeithasol a dealltwriaeth yma ym Mangor.

”

Myfyrwraig ym Mhrifysgol Bangor

Cymorth ariannol

Mae'r **Undeb Cymorth Ariannol** yn rhan o'r **Tîm Cefnogi Myfyrwyr** a gall gynnig cyngor, gwybodaeth ac arweiniad ar bob agwedd o gyllid myfyrwyr, gan gynnwys:

- **Cyllidebu**
- **Cyllid israddedig** ar gyfer cyrsiau rhan amser a llawn amser
- **Cyllid ôl-radd**
- Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau'r Brifysgol, sy'n cynnwys **Ysgoloriaeth Ehangu Mynediad**. Yn ogystal â'r **Bwrsari Gofalwyr £1000** a gynigir gan y Brifysgol yn ganolog, cynigir ysgoloriaeth arall o **£1500** gan y Ganolfan Ehangu Mynediad i ofalwyr sy'n dod i astudio ym Mhrifysgol Bangor
- **Cronfa Caledi** a Grant Argyfwng

Syniad safonol gan ofalydd



Chwiliwch am gymorth ariannol!

“Cefais gyngor gan ofalydd arall y gallwn wneud gradd ac y byddwn yn cael cymorth ariannol. Ni fyddwn wedi gwneud y radd oni bai fy mod wedi siarad â nhw [...] Roedd bwrsariaethau'n ddefnyddiol, a gwybod na fyddwn ar fy ngholled yn ariannol ar ôl colli'r grant gofalwyr.”

Iechyd a llesiant

Mae'r **Gwasanaeth Cyngori Myfyrwyr** yn cynnig adnoddau gwahanol i gefnogi myfyrwyr yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol, sy'n cynnwys:

- Gweithdai i fyfyrwyr trwy gydol y flwyddyn academaidd yn cynnwys gweithdai **Adeiladu Gwytnwch iCAN**

- **Sesiynau blas o feddylgarwch** ar brynhawniau Mercher
- Cyfle i siarad trwy faterion personol a phroblemau mewn amgylchedd diogel, cyfrinachol gyda chwmselydd proffesiynol



Mae bod yn ofalydd llawn-amser ac yn fyfyrwr llawn-amser yn anodd ac mae'n rhaid ichi fod yn fath arbennig o berson, ond mae staff y Brifysgol yn gefnogol iawn ac fe wnânt bopeth allant i wneud pethau ychydig yn rhwyddach".



Myfyriwr ym Mhrifysgol Bangor

Manylion cyswllt

Prifysgol Bangor
Ehangu Mynediad
Ffordd y Coleg
Bangor
Gwynedd
LL57 2DG

01248 383761



I gael mwy o wybodaeth a chefnogaeth cysylltwch â Delyth Murphy, Pennaeth y Ganolfan Ehangu Mynediad





Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

PRIFYSGOL METROPOLITAN CAERDYDD

Mae Met Caerdydd wedi ymrwymo i ddarparu profiad myfyrwyr rhagorol i'w dysgwyr. Pwrpas y brifysgol yw darparu addysg, ymchwil ac arloesedd o ansawdd uchel, a gydnabyddir yn broffesiynol, sy'n ffocysu ar arfer ac sy'n cael effaith amlwg mewn partneriaeth â myfyrwyr.

Trwy weithio gyda'i gilydd a dathlu creadigrwydd ac amrywiaeth, maent yn galluogi pob myfyriwr i gyflawni eu llawn botensial i wneud cyfraniadau lefel-graddedig rhagorol a symblu twf economaidd cynaliadwy a chydlynedd cymdeithasol i Gaerdydd, Cymru a'r byd ehangach.

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob oed ac mae'n ystyried sgiliau a phriodweddau a enillwyd o fyd gwaith a phrofiadau bywyd eraill yn ogystal â chymwysterau.

© Prifysgol Metropolitan Caerdydd



Pa gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr?

Cyn ichi ddechrau eich cwrs

Mae'r brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau y dylai pawb a chanddynt y dyfalbarhad, sgiliau ac awydd i fanteisio ar addysg uwch allu gwneud hynny. Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cynnig ystod eang o wasanaethau cefnogi a chyrsgiau i ofalwyr o bob oed, megis:

- **"O'r Gymuned i'r Campws"**, rhaglen Ehangu Mynediad o **gyrsiau ar gyfer oedolion sy'n ddysgwyr** heb gymwysterau lefel 4, gan gynnig llwybrau dilyniant i gefnogi dysgwyr ar bob cam o'u taith ddysgu. Datblygir rhaglenni mewn partneriaeth â staff academiaidd, sy'n sicrhau bod y cynnwys ar y lefel iawn ar gyfer y dysgwr ac yn rhoi awgrym o ddewisiadau dysgu pellach a dyheadau gyrfaal i'r dyfodol

- **Rhaglenni'r 'Cam Nesaf'** sy'n sicrhau eich bod yn cael eich cefnogi ar hyd eich taith ddysgu
- Prosiectau ysgol a chymunedol a ddarperir ar y cyd â **First Campus** sy'n cefnogi gofalwyr ifanc i wneud dewisiadau gwybodus am eu dyfodol ym myd addysg a thu hwnt
- Mynediad i **i-zone**, gwasanaeth cymorth pwrpasol ar gyfer pob ymholiad heb fod yn rhai academiaidd, megis interniaethau, iechyd meddwl a chyingor ariannol



Syniad safonol gan ofalydd

"Mae'n iawn teimlo'n rhwystredig oherwydd yr effaith mae gofalu yn ei gael ar eich bywyd. Yn bersonol, yn broffesiynol ac yn emosiynol. Nid ydych ar eich pen eich hun!"

Gallwch fod yn fyfyrwr ar unrhyw adeg yn eich bywyd

Bydd y rhwystrau rhag gallu derbyn addysg uwch yn amrywio a byddant yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Mae Met Caerdydd yn cynnig cefnogaeth i ofalwyr o bob oed, pryd bynnag y penderfynant gydio neu ail-gydio yn eu haddysg.

Rwyf yn ofalydd!

Gallwch nodi eich bod yn ofalydd adeg ymrestru. Bydd y mentor staff yn cysylltu â chi yn ystod y tymor cyntaf i gyflwyno eu hunain, rhoi gwybod ichi pa wasanaethau sydd ar gael a'ch cefnogi wrth ichi addasu i fywyd prifysgol.

“

Roeddwn yn 31 oed, yn fam i bump o blant, ac roedd fy nisgwyladau o fy hunan yn isel. Nid oeddwn erioed wedi credu y gallwn fod yn fwy na gwraig a gwraig tŷ [...] yn magu pump o blant, dau ohonynt yn anabl, oedd yn heriol iawn [...] Mae cael fy nghyflwyno i Ddysgu Oedolion yn y Gymuned wedi trawsnewid fy mywyd yn llwyr ac wedi'm galluogi i weld fod goleuni ar ben draw'r twnnel. Mae wedi rhoi sgiliau bywyd imi, adeiladu fy hyder a'm hintegreiddio yn y gymuned.

Llyfryn Teithiau Dysgwyr 2019

”

Yn ystod eich astudiaethau

Gall myfyrwyr a chanddynt gyfrifoldebau gofal droi at **fentor staff arbennig**, Emma Cook, all gefnogi a chynghori ar bob agwedd o fywyd prifysgol. Emma fydd y cyswllt cyntaf a bydd yn ddolen rhwng yr ysgolion academaidd, tiwtoriaid cyrsiau ac adrannau'r Brifysgol i sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn yr holl gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

Cyn ymrestru ar gwrs ym Met Caerdydd, gall gofalwyr gwrdd ag Emma i drafod unrhyw gymorth maen nhw'n meddwl y gallent fod ei angen tra'n fyfyrwr, gan gynnwys cyngor ariannol.

Cymorth ariannol

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn **cynnig cyngor** ariannol a chefnogaeth i'w holl fyfyrwyr, gan gynnwys:

- **Arweiniad rhyngweithiol** i fwrsariaethau ac ysgoloriaethau
- **Bwrsari gofalwyr** o hyd at £1,000 y flwyddyn os ydych yn fyfyrwr llawn amser a hyd at £500 os ydych yn fyfyrwr rhan amser. Er mwyn derbyn bwrsari, byddai angen ichi ddarparu cadarnhad gan berson sy'n gysylltiedig â'r teulu mewn ffordd broffesiynol (e.e. gweithiwr cymdeithasol, meddyg teulu ac ati) yn cadarnhau eich bod yn ofalydd
- **Cronfa Cefnogi Myfyrwyr** ar gyfer anawsterau ariannol annisgwyl

Iechyd a llesiant

Os ydych angen cymorth iechyd a llesiant ychwanegol, mae **Gwasanaethau Llesant** Met Caerdydd yn cynnwys

- Cymorth iechyd meddwl 24/7 ac adnoddau ar-lein trwy dudalen y **Big White Wall**

- Cwnsela rhad ac am ddim
- Cymorth anabled

Manylion cyswllt

Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Ehangu Mynediad
Rhodfa'r Gorllewin
Campws Llandaf
Caerdydd
CF5 2YB

029 2020 1563



Gwasanaethau Myfyrwyr



Chyngor Cyllid



I gael mwy o wybodaeth a chefnogaeth cysylltwch ag Emma Cook, Cyngorydd Lles Ariannol Myfyrwyr



CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

PRIFYSGOL CAERDYDD

Mae bywyd academiaidd ym Mhrifysgol Caerdydd yn heriol, blaengar a boddhaus. Mae myfyrwyr yn dysgu oddi wrth ymchwilwyr ac athrawon blaenllaw sy'n cael eu tanio gan greadigrwydd a chywreinrwydd. Mae tua 28,000 o fyfyrwyr o sawl rhan o'r byd yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd, ac mae eu cefndiroedd a'u profiadau amrywiol yn creu cymuned ddeinamig. Mae hyn, a bod yn agos at gyfleusterau a chyfleoedd prifddinas yn ei wneud yn lle gwych i astudio ynddo.

© Prifysgol Caerdydd



Pa gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr?

Cyn ichi ddechrau eich cwrs

Trwy weithio mewn partneriaeth ag **Ymestyn yn Ehangach First Campus**, mae'r brifysgol yn parhau i ddatblygu cyfleoedd amrywiol i ofalwyr ifanc ac mae'n cynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad wedi'u teilwra i'ch helpu i gynllunio a pharatoi ar gyfer y brifysgol. Ymhlith y cyfleoedd ar gyfer gofalwyr sy'n ystyried Prifysgol Caerdydd mae:

- **Ymweliadau â'r brifysgol** fel y gallwch weld lle y gallech fod yn astudio, cael mwy o wybodaeth am eich cwrs a sut brofiad allai bod yn fyfyrwr yma fod
- **Sesiwn croeso dros frechwast** ar gyfer gofalwyr yn ystod Dyddiau Agored, lle y bydd mwy o gefnogaeth a chynngor wedi'u teilwra ar gael ichi

Yn 2019/20, dywedodd **195** o'r myfyrwyr a ymrestrodd ym Mhrifysgol Caerdydd fod ganddynt gyfrifoldebau gofalu. Mae **137** ohonynt yn ofalwyr ifanc.

- **Digwyddiadau preswyl ar gyfer gofalwyr ifanc** dros wyliau'r Pasg ar gyfer y sawl sy'n awyddus i ddysgu mwy am ddod yn fyfyrwr
- Mynediad at **Raglen Camu i Fyny**, prosiect sy'n ceisio darparu cymorth i ddisgyblion Blwyddyn 11 i Flwyddyn 13 yn Ne Ddwyrain Cymru sy'n dymuno parhau â'u hastudiaethau
- **Cyngor a chefnogaeth** sydd ar gael gan Gareth Davies, cyswllt arweiniol ar gyfer myfyrwyr sy'n ofalwyr ym Mhrifysgol Caerdydd
- Yn ystod **ymrestru ar-lein**, gofynnir ichi a oes gennych gyfrifoldebau gofal. Os mai oes yw eich ateb i'r cwestiwn hwn, bydd Prifysgol Caerdydd yn cysylltu â chi yn nhymor yr hydref i roi gwybod ichi pa gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr yn y brifysgol a'ch gwahodd i drefnu cyfarfod â Gareth i weld sut mae pethau'n mynd.

Syniad safonol



Peidiwch brwydro ar eich pen eich hun! Gallwch gael cyngor a chefnogaeth am reoli dyddiadau cau gwaith cwrs, arholiadau neu os bydd angen ichi gollu rhai darlithiau. Mae hyn yn cynnwys darparu llythyr o gefnogaeth i gadarnhau eich bod yn rheoli eich astudiaethau law yn llaw â'ch rôl ofalu pe baech chi angen hynny.

Yn ystod eich astudiaethau

Mae timau gwahanol ym Mhrifysgol Caerdydd yn cynnig cefnogaeth bwrpasol i bob myfyriwr ymhob agwedd ar eu bywydau fel myfyrwyr:

- Mae'r tîm **Cefnogi & Llesiant Myfyrwyr** yn cynnal ystod eang o wasanaethau ar gyfer yr holl fyfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd ac maent yn deall anghenion myfyrwyr sy'n ofalwyr a'r heriau maen nhw'n aml yn eu hwynebu
- **Aelod pwrpasol o'r Tîm Allestyn** sy'n cynnig cefnogaeth i ofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr
- Mae'r **Tîm Bywyd Preswyl** yn darparu gwybodaeth am fyw mewn neuaddau myfyrwyr a'ch helpu i addasu i fywyd prifysgol
- Yn ogystal â llwyth o **gyngor gyrfaol cyffredinol** a digwyddiadau cyflogadwyedd, mae Tîm **GO Wales** yn cynnig cyfle i gael profiad gwaith yn ystod eich cwrs heb darfu ar eich cyfrifoldebau gofal

Pasbort Gofalwyr

Mae Prifysgol Caerdydd yn gweithio ar Basbort Gofalwyr, fydd yn ei gwneud yn haws i bob myfyriwr sy'n ofalydd gyflwyno eu hunain a chael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Cymorth ariannol

Mae'r tîm **Cyngor ac Arian** yn cynnig gwybodaeth ac arweiniad ar unrhyw agwedd ar gyllid a chymorth ariannol ychwanegol a gall helpu gydag ymholiadau ynghylch newidiadau yn eich amgylchiadau, megis dymuno newid cyrsiau neu gymryd hoe o'ch astudiaethau. Ymhlith y cymorth ariannol y gallwch fanteisio arno mae:

- Cronfa galedi o'r enw'r **Rhaglen Cymorth Ariannol**, all eich cefnogi pe baech yn wynebu anawsterau ariannol, neu pe baech yn cael costau ychwanegol sylweddol yn gysylltiedig ag astudio a gofalu. Caiff ceisiadau eu hasesu ar sail incwm a rhoddir ystyriaeth i'ch cyfrifoldebau gofal a'ch sefyllfa ariannol fel gofalydd.
- **Bwsari Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr o £1000** ar gyfer pob blwyddyn academaidd i fyfyrwyr o dan 25 oed. Gall hwn fod ar gael ar ben Bwsari Prifysgol Caerdydd. Cysylltwch â'r **Tîm Bwsariaethau ac Ysgoloriaethau** i gael gwybod mwy

Syniad safonol



Peidiwch brwydro ar eich pen eich hun! Gallwch gael cyngor a chefnogaeth am reoli dyddiadau cau gwaith cwrs, arholiadau neu os bydd angen ichi golli rhai darlithiau. Mae hyn yn cynnwys darparu llythyr o gefnogaeth i gadarnhau eich bod yn rheoli eich astudiaethau law yn llaw â'ch rôl ofalu pe baech chi angen hynny.

Iechyd a llesiant

Mae gofalu am rywun tra'ch bod mewn prifysgol yn gallu bod yn heriol. Mae staff cwnsela a llesiant Prifysgol Caerdydd ar gael i'ch helpu i reoli eich iechyd emosiynol, meddyliol a chorfforol trwy wasanaethau megis:

- **Cefnogaeth cymheiriad** gan gyd fyfyrwr
- Amrywiol **weithdai, cyrsiau a grwpiau ar** iechyd a llesiant trwy gydol y flwyddyn academiaidd
- **Apwyntiadau cwnsela a llesiant** rhad ac am ddim

Syniad safonol gan ofalydd



“Mae gofaluwyr eraill wedi llwyddo [gwneud cais i brifysgol] a dod allan y pen arall. Bydd cefnogaeth ar gael pe bai gofaluwyr yn dewis gadael cartref i astudio.”

Manylion cyswllt

Prifysgol Caerdydd
Cefnogi Myfyrwyr
50 Park Place
Caerdydd
CF10 3AT

029 2087 4844



First Campus



I gael mwy o wybodaeth a chefnogaeth cysylltwch â **Gareth Davies, Cyngorydd Cefnogi Myfyrwyr**





Y BRIFYSGOL AGORED

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn cynnig rhaglen dysgu o bell hyblyg, gyda chefnogaeth i fyfyrwyr yn y DG a ledled y byd, sy'n eu galluogi i astudio pan a ble sydd orau iddyn nhw.

Mae trefn dysgu o bell hyblyg Y Brifysgol Agored yn addas iawn ar gyfer y cyfrifoldebau amrywiol a newidiol y mae gofalwyr yn eu hwynebu. Gwir werth y math yma o astudio yw y gellir teilwra pryd ac ymhle rydych yn astudio ar eich cyfer chi. Yn wahanol i brifysgol campws

arferol, nid oes rhaid mynychu darlithiau rheolaidd. Mae rhai cyrsiau'n cynnig ysgolion dydd achlysurol, lle y gallwch gyfarfod â myfyrwyr eraill. Mae pob modiwl yn cynnwys sesiynau tiwtorial ar-lein rheolaidd, y gallwch eu mynychu o gartref, naill ai ar y pryd neu wedi'u recordio.



Pa gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr?

Cyn ichi ddechrau eich cwrs

Mae'r Brifysgol Agored yn cydnabod fod astudio a gofalu am rywun ar yr un pryd yn gallu bod yn heriol, ac o'r herwydd mae staff yn darparu **adnoddau a chymorth wedi'u teilwra** ar gyfer eich anghenion chi. Os rhowch wybod i'r Brifysgol Agored eich bod yn ofalydd hyd yn oed cyn ichi ddewis cwrs, gallwch ddefnyddio:

- **Pecyn gwybodaeth i ofalwyr** yn cynnwys arweiniad a chefnogaeth, manylion cyswllt defnyddiol a storïau myfyrwyr eraill. Mae'r pecyn ar gael yn Gymraeg, Saesneg ac mewn fformat electronaidd hygyrch yn addas ar gyfer meddalwedd darllen sgrin
- **Cyngor personol** ar y dewisiadau astudio sydd ar gael a'r ymrwymiad amser sydd ei angen, fel y gallwch fod yn hyderus eich bod yn dewis astudio rhywbeth y byddwch yn ei fwynhau, ac sydd hefyd yn gweddu i'ch ffordd o fyw



Roedd yn help mawr imi gael fersiynau sain o'm llyfrau, fel y gallwn wrando ar fy ngwaith wrth imi wneud gwaith arall.

Myfyrwr yn y Brifysgol Agored



Os nad ydych yn teimlo'n gwbl barod i ymrwymo i gymhwyster ffurfiol gyda'r Brifysgol Agored, gallwch roi cynnig ar rai o'r cyrsiau blasu ar-lein rhad ac am ddim sydd ar gael yn **OpenLearn**. Mae'r cyrsiau hyn yn rhoi rhyddid llwyr ichi gymryd faint fynnoch o amser ar gyfer eich astudiaethau, neu i bigo mewn ac allan o sawl cwrs wrth ichi arbrofi gyda'r hyn sy'n gweithio orau ichi.

Wyddech chi?



Fod Y Brifysgol Agored yn sefydliad mynediad agored ac nad oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer llawer o'u cymwysterau israddedig.



Pan ddywedais o'r diwedd wrth un o fy nhwtoriaid fy mod yn ofalydd, cefais fy rhyfeddu gymaint o gefnogaeth oedd ar gael. Esboniodd y gallwn gysylltu ag ef os oeddwn angen estyniadau a chefnogaeth ychwanegol.



Gofalydd yn y Brifysgol Agored

Yn ystod eich astudiaethau

Ar gyfer pob cwrs ffurfiol a astudiwch gyda'r Brifysgol Agored neilltuir **tiwtor** ar eich cyfer fydd yn eich cefnogi trwy gydol eich astudiaethau, gan gynnig cyngor a chefnogaeth ynghylch eich gwaith a ffyrdd o reoli eich astudiaethau. Hefyd, mae **Tîm Cefnogi Myfyrwyr** pwrpasol ar gael i'ch tywys a'ch cynghori ar hyd eich taith myfyriwr. Gallwch sgwrsio â nhw os oes unrhyw beth yn newid neu os oes unrhyw beth yn eich poeni. Mae'r Brifysgol Agored yn cynnig:

- **Deunyddiau modylau mewn nifer o fformatau gwahanol** sydd ar gael ar-lein, mewn print, neu hyd yn oed sain – y gallwch wrando arnynt wrth wneud pethau eraill – fel y gallwch ddewis rhywbeth sy'n addas ichi
- **Trefniadau arholiadau hyblyg** ar gyfer myfyrwyr sy'n ofalwyr, allai gynnwys trefnu ichi gymryd arholiad yn eich cartref eich hun, ac egwylion wedi'u cynnwys yn hyd yr arholiad er mwyn ichi roi sylw i'r person rydych yn gofalu amdanynt
- **Dealltwriaeth a hyblygrwydd ynghylch cyfrifoldebau gofal**, megis estyniadau i aseiniadau pan fyddwch eu hangen, gohirio modiwl neu gymryd blwyddyn i ffwrdd os oes angen ichi gael hoe. Gallwch hefyd drefnu rhywfaint o gymorth ychwanegol ar y ffôn gan eich tiwtoriaid ar gyfer "adolygu" os oes angen ichi beidio gwneud peth o'ch gwaith astudio oherwydd bod rhywbeth annisgwyl yn digwydd
- **Tîm Gyrfaoedd** pwrpasol all gynnig cyngor ar ddod o hyd i brofiad gwaith hyblyg, a'ch helpu i siarad trwy unrhyw bryderon allai fod gennych am ddatblygu eich gyrfa, gan gynnwys gweminar '**Datblygu eich Gyrfa Law yn Llaw â Gofalu**'
- Rhaglen lleoliad gwaith o'r enw **GO Wales** sy'n rhoi cymorth ymarferol i ofalwyr i gael profiad gwaith sy'n gweddu ichi ac mae'n bosib y gallent eich helpu gydag unrhyw gostau gofal a thrafnidiaeth allai fod gennych tra ar leoliad. Mae'r prosiect yn rhoi cefnogaeth benodol i ofalwyr o dan 25.
- **Grŵp Gofal a Dibyniaeth ar Facebook** a gymedrolir gan **Gymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored**



Mae'n fy rhyfeddu sut mae llawer o fyfyrwyr yn Y Brifysgol Agored yn cydbwysu'u hastudiaethau gyda'u gofalu. Nid yw hynny'n rhwydd, ac fel tiwtor mae'n golygu llawer imi pan mae myfyrwyr yn trafferthu cysylltu er mwyn fy helpu i gael gwell darlun o'u sefyllfa. of their situation.



Tiwtor yn y Brifysgol Agored

Cymorth ariannol

Mae'r Brifysgol Agored yn bwriadu lansio **Cronfa Ysgoloriaeth Gofalwyr** newydd fydd yn darparu cymorth ariannol ychwanegol i 50 o fyfyrwyr sy'n ofalwyr ym mlwyddyn academaidd 2020/21. Gall myfyrwyr y Brifysgol Agored fanteisio hefyd ar gymorth ariannol arall megis:

- **Benthyciadau myfyrwr cyffredinol**
- **Grantiau cynhaliaeth**
- **Cymorth anabled**

“

Astudiais trwy gydol y nos gan y bu'n rhaid imi aros yn effro gyda fy merch, ac yna cysgais yn ystod y dydd tra'i bod hi yn yr ysgol.

Myfyriwr yn y Brifysgol Agored

”

Beth amdanaf i



Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi datblygu cwrs datblygiad personol rhad ac am ddim ar gyfer gofalwyr yng Nghymru. **Beth am gael golwg arno!**

Iechyd a llesiant

Mae astudio tra'n gofalu yn gallu bod yn anodd ac weithiau mae'n rhaid ichi ofalu am eich iechyd meddwl eich hun. Mae gan y Brifysgol Agored nifer o adnoddau y gallwch eu defnyddio i'ch helpu gyda hyn:

- Adnodd **Astudio ac Aros yn Feddyliol Iach**
- Adnodd cymunedol ar-lein y **Big White Wall** sy'n canolbwyntio ar ofalu am iechyd a llesiant meddyliol

Manylion cyswllt

Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Tîm Cefnogi Myfyrwyr
18 Custom House Street
Caerdydd
CF10 1AP

029 2047 1170





PRIFYSGOL ABERTAW

Mae Prifysgol Abertawe yn brifysgol dan arweiniad ymchwil fu'n gwneud gwahaniaeth er 1920. Mae cymuned y brifysgol yn ffynnu ar archwilio a darganfod ac mae'n cynnig y cydbwysedd cywir o addysgu ac ymchwil rhagorol, gydag ansawdd bywyd heb ei ail ar ben hynny.



Pa gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr?

Mae Prifysgol Abertawe wedi ymrwymo i gefnogi myfyrwyr sy'n ofalwyr ac mae'n cynnig pecyn pwrpasol o gefnogaeth i'r myfyrwyr hynny sy'n gymwys. Cynlluniwyd y **Pecyn Cefnogi Myfyrwyr sy'n Ofalwyr** gyda myfyrwyr sy'n ofalwyr a chymdeithasau gofalwyr lleol i gynnig cefnogaeth ariannol, ymarferol a bugeiliol i alluogi gofalwyr i gael y gorau allan o'u profiad prifysgol yn Abertawe.

Cyn ichi ddechrau eich cwrs

Gallwch dderbyn ystod eang o gefnogaeth a gwybodaeth, gan gynnwys:

- Cyswllt a enwyd o fewn tîm **Llesiant@BywydCampws**
- **Negeseuon** rheolaidd am fywyd ym Mhrifysgol Abertawe
- Ymweliadau arbennig â'r brifysgol a drefnir trwy eich cyswllt Llesiant@BywydCampws
- Help gyda chynllunio a threfnu llety
- Cymorth ariannol i fynd i Ddyddiau Agored a chyfweiliadau

Cefnogaeth i fyfyrwyr aeddfed

Mae gan Brifysgol Abertawe ystod eang o **gefnogaeth a gwybodaeth i fyfyrwyr aeddfed**, all fod ag anghenion gwahanol i ddarpar fyfyrwyr sydd newid adael yr ysgol uwchradd.

- Gwasanaeth cwrdd a chyfarch ar gyfer Dyddiau Agored, cyfweiliadau, dyddiau ymweld i ymgeisyddion a phenwythnos cyrraedd
- **Sesiynau preswyl haf** ar gyfer gofalwyr rhwng 15 a 18 oed a drefnwyd gan Bartneriaeth Ymestyn yn Ehangach De Orllewin Cymru
- **Rhaglen Camu i Fyny i Brifysgol Abertawe** Ymestyn yn Ehangach ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 12

Yn ystod eich astudiaethau

Tra'ch bod ym Mhrifysgol Abertawe, gallwch barhau i dderbyn gwybodaeth a chefnogaeth wedi'u teilwra, megis:

- **Cyfarfodydd rheolaidd** gyda chyswllt pwrpasol o'r tîm Lles
- Ymuno â **rhwydweithiau cymorth** lleol i ofalwyr
- Cyfle i gael lleoliadau gweithle trwy **Raglen Go Wales**

Syniad safonol gan ofalydd

Byddwch yn onest "Byddwn yn awgrymu bod yn agored a gonest gyda'ch darlithwyr a'ch tiwtor personol o'r cychwyn, gan y cewch lawer mwy o ddealltwriaeth o'r cychwyn."



Cymorth ariannol

Gall y tîm **Arian@BywydCampws** ddarparu gwybodaeth a chyngor ar nifer o faterion yn ymwneud ag arian, gan gynnwys:

- **Cymorth** gyda Cheisiadau Cyllid Myfyrwyr
- Manteisio ar **Gronfeydd Caledi** os ydych yn ei chael yn anodd yn ariannol. Efallai y caiff gofalwyr flaenoriaeth o ran ceisiadau i **Gronfa Cyfle Prifysgol Abertawe**, sef y brif gronfa caledi ym Mhrifysgol Abertawe
- **Bwrsariaethau i fyfyrwyr sy'n ofalwyr** o **£500** ar gyfer myfyrwyr llawn amser neu **£250** ar gyfer myfyrwyr rhan amser

Pecynnau Cymorth a Bwrsariaethau

Er mis Medi 2017 mae dros 20 o fyfyrwyr wedi manteisio ar y pecyn Cefnogaeth i Fyfyrwyr sy'n Ofalwyr ac wedi derbyn y bwrsariaeth.

Iechyd a Llesiant

Mae Prifysgol Abertawe yn cynnig nifer o wasanaethau cefnogi iechyd a llesiant:

- **Cymorth a chefnogaeth ychwanegol** ar gyfer myfyrwyr allai fod ganddynt anabledd neu anhawster dysgu penodol
- **Rhaglen therapi ymddygiad gwybyddol** ar-lein rad ac am ddim
- Gallu mynychu **cwrs rheoli straen** 6 wythnos o hyd
- **Cwrsela**

Syniad safonol



Siaradwch â rhywun! Mae Undeb y Myfyrwyr Prifysgol Abertawe yn cynnig **nifer o wasanaethau iechyd a llesiant** sy'n gweddu i'ch anghenion chi.

Manylion cyswllt

Prifysgol Abertawe
Llesiant@BywydCampws
Adeilad Keir Hardie
Campws Singleton
Prifysgol Abertawe
SA2 8PP

01792 513889

I gael mwy o wybodaeth a chefnogaeth cysylltwch â Danielle Richards, Swyddog Bywyd Myfyrwyr



University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru

PRIFYSGOL DE CYMRU

Mae gan Brifysgol De Cymru gampysau yng Nghaerdydd, Casnewydd, Pontypridd a Dubai. Caiff myfyrwyr gyfleoedd di-rif a chymorth arobryn i'w helpu ar hyd y daith.

© Prifysgol De Cymru



Pa gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr?

Cyn ichi ddechrau eich cwrs

Gall y **Tîm Cyngor Ariannol i Fyfyrrwyr** helpu myfyrrwyr presennol a darpar fyfyrrwyr gyda chyngor ariannol, gan gynnwys cymorth i wneud cais am gyllid myfyrrwyr ac am gronfeydd y Brifysgol ei hun. Gallwch hefyd dderbyn cymorth amhrisiadwy gyda llenwi eich cais am gyllid myfyrrwyr a gwirio eich bod yn derbyn yr hyn sy'n ddyledus ichi.

Mae'r **tîm Recriwtio Myfyrrwyr** hefyd yn cynnig cefnogaeth a gwybodaeth o bob math, gan gynnwys gweithgareddau ar y campws megis dyddiau agored a sesiynau preswyl.

Yn ystod eich astudiaethau

Mae'r Brifysgol yn cynnig ystod eang o gymorth trwy **Ardal Gyngori** pwrpasol:

- Cymorth a gwybodaeth ynghylch **llety**
- Cyngor, gwybodaeth ac adnoddau i helpu gwella perfformiad academaidd trwy'r **Gwasanaeth Sgiliau Astudio**
- Cefnogaeth bwrpasol gan y **Tîm Cyngor Dilyniant** os ydych yn cael yn anhawster gyda'ch cwrs
- Mae **tîm GO Wales** yn darparu cyfle i gael profiad gwaith yn ystod eich cwrs all weddu gyda'ch cyfrifoldebau gofal. Maent hefyd yn cynnig cymorth i ddatblygu eich sgiliau cyflogadwyedd

95%

o raddedigion Prifysgol De Cymru mewn gwaith neu addysg o fewn chwe mis i radio

DLHE 2018/19

Ticiwch y Blwch!

Mae Prifysgol De Cymru wedi cynnwys blwch ticio ar y ffurflen ymrestru er mwyn i fyfyrrwyr allu dweud a oes ganddynt gyfrifoldebau gofal

Cymorth ariannol

Mae Prifysgol De Cymru yn cydnabod fod gofalu yn aml yn creu goblygiadau ariannol, megis bod ar gael am lai o amser i wneud gwaith am dâl a mwy o gostau teithio. Mae'r Brifysgol yn cynnig:

- **Bwrsari gofalwyr o £1,000** (ar gyfer myfyrwyr llawn amser) a £500 (ar gyfer myfyrwyr rhan amser neu fyfyrwyr cyrsiau 6-mis) y flwyddyn i fyfyrwyr cymwys Prifysgol De Cymru sy'n ofalwyr di-dâl
- Cymorth ariannol ychwanegol gan y **Gronfa Cefnogi Myfyrwyr**

Iechyd a llesiant

Mae gan Brifysgol De Cymru wasanaeth iechyd pwrpasol ar gyfer holl fyfyrwyr Prifysgol De Cymru, sy'n cynnig gwasanaethau meddygol cyffredinol law yn llaw â'ch meddyg teulu, fferyllydd, deintydd a'r GIG. Mae gwasanaethau iechyd a llesiant eraill yn cynnwys:

- **Adnoddau hunangymorth**
- **Cymorth mentor** un i un ar gyfer pobl a chanddynt gyflwr iechyd meddwl neu Anhwylder Sbectrum Awstistiaeth
- **Cwrsela**

Gwnaed yn y Brifysgol: cyfleoedd am lwyddiant

Yn 2019, creodd nyrs dan hyfforddiant o Brifysgol De Cymru **hwb adnoddau** newid-bywydau ar gyfer pobl ag anableddau a'u gofalwyr.

Manylion cyswllt

Prifysgol De Cymru
Pontypridd
CF37 1DL

01443 483778



I gael mwy o wybodaeth a chefnogaeth cysylltwch ag aelod o'r tîm Cyngor Ariannol i Fyfyrwyr



Stori gofalydd

Y gyn fyfyrwraig Nyrsio Iechyd Meddwl Lucy, 29, o Ferthyr, oedd yr unig ofalydd ar gyfer ei mam, oedd â chansr terfynol ac a fu yn anffodus farw tra bod Lucy yn astudio.

“

“Mae astudio ar gyfer fy ngradd nyrsio ar yr un pryd â gofalu am fy mam wedi bod yn anodd iawn, ond mewn sawl ffordd dyna oedd fy achubiaeth. Mae cael rhywbeth arall i feddwl amdano a ffocysu arno, dim ond am ychydig oriau, yn help mawr. Mae bod yn ofalydd yn gallu creu llawer iawn o straen emosiynol; mae bywyd yn anwadal gan fod iechyd mam yn amrywio cymaint.

Rwyf mor ffodus fod gen i diwtor cefnogol, Karyn Davies, sydd wedi dod â fi drwy gyfnodau anodd yn y Brifysgol, yn ymarferol ac emosiynol, ac mae wedi gadael imi beidio bod yno pan mae fy angen gartref.

Mae fy ffrindiau ar y cwrs yn wych hefyd. Os ydw i'n colli dosbarth neu pan mae gennym draethodau i'w gwneud, byddant yn trefnu grwpiau astudio. A phan rydw i'n cael diwrnod gwael, bydd un ohonynt yn gyrru draw ac yn mynd â fi i'r Brifysgol. Maen nhw wedi bod yn llinell y bywyd imi.

Dywedodd tiwtor Lucy, Karyn Davies:

“

Mae Lucy nid yn unig yn gwneud yn dda iawn yn academiaidd, ond mae hefyd yn cael adroddiadau ac adborth cadarnhaol gan ei mentoriaid allan mewn arfer clinigol. Mae gwneud gradd nyrsio Iechyd Meddwl yn gallu bod yn heriol ar y gorau, ac er gwaethaf sefyllfa bersonol Lucy ar hyn o bryd fel

Fe fu adegau pan nad oedd y meddygon eisiau trin Mam gan nad oeddent yn meddwl y deuai trwyddi, ond rydw i wedi gwrthod ildio, defnyddio fy ngwybodaeth nyrsio ac ymladd yn erbyn eu penderfyniad. Rydw i'n credu mod i'n cael fy styfnigrwydd oddi wrthi hi!

Dydy'r ffaith eich bod yn ofalydd ddim yn golygu na allwch gyrchu eich breuddwydion ac astudio am radd ar yr un pryd. Ydy, mae'n galed, ond mae yn bosib ar yr amod fod gennych y cymhelliad a theulu a ffrindiau da o'ch cwmpas.

Alla i - a fydda i - ddim yn gadael i gancr ennill a rheoli fy mywyd. Yn union fel mae fy mam wedi ymladd mor galed a dod trwyddi yn groes i'r disgwyl, Mae hi mor gryf a hi yw fy ysbrydoliaeth.”

”

gofalydd i'w mam mae'n dal i ddangos ymrwymiad gwirioneddol i ddod yn nyrs gofrestredig. Rwyf yn rhagweld y bydd Lucy, gyda chefnogaeth, yn parhau i wneud yn dda yn ei hastudiaethau ac yn dod yn eiriolydd heb ei hail ar gyfer nyrsio Iechyd meddwl.

”



PRIFYSGOL CYMRU: Y DRINDOD DEWI SANT

Mae Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) yn brifysgol aml-gampws sy'n darparu profiad dysgu cynhwysol ar gyfer dysgwyr o bob oed a chefnidir.

O ddinas glannau'r môr hardd Abertawe i'r ardaloedd gwledig ysblennydd sy'n amgylchynu'r campysau yng Nghaerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan, mae pob lleoliad yn cynnig ansawdd bywyd eithriadol i'w myfyrwyr.



Pa gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr?

Mae PCYDDS yn brifysgol ehangu mynediad, ac mae ei charfan o fyfyrwyr yn adlewyrchu hynny. Mae gan y brifysgol **Wasanaethau Myfyrwyr** helaeth a rhagweithiol i gefnogi pob myfyriwr i gydbwyso eu bywyd cymdeithasol a gofalu gyda'u hastudiaethau. Mae gan PCYDDS fframwaith o gefnogaeth ar gael ar gyfer oedolion ifanc sy'n ofalwyr, gan gynnwys proses dderbyniadau gefnogol ac bwrsari pwrpasol.

Cyn ichi ddechrau eich cwrs

Caiff gwaith allestyn a gweithgareddau preswyl ar gampws eu trefnu ar gyfer oedolion ifanc sy'n ofalwyr i helpu cael gwared â rhwystrau. Gallwch gysylltu â'r **tîm Ymestyn yn Ehangach** yn Y Drindod Dewi Sant i gael gwybod mwy am y cyfleoedd hyn.

Yn ystod eich astudiaethau

Mae'r Gwasanaethau Myfyrwyr ar gyfer myfyrwyr PCYDDS yn cynnig lluo o wasanaethau megis:

- **Sesiynau Astudio gyda Chymorth Cymheiriaid**, trefniant dysgu gan gyfoedion lle y mae myfyrwyr blynyddoedd uwch yn cynnal sesiynau astudio ar gyfer myfyrwyr blynyddoedd is

- Cymorth gyda'ch astudiaethau trwy'r tîm **cefnogi sgiliau astudio**
- Awgrymiadau a chyngor **cyflogadwyedd** ac ysgrifennu CV trwy'r **Gwasanaeth Gyrfaoedd**

Cymorth ariannol

Mae PCYDDS yn cynnig ystod o **ysgoloriaethau a bwrsariaethau**, megis:

- gwobrau cwrs-benodol
- gwobrau i gefnogi datblygu sgiliau ychwanegol a chyflogadwyedd
- help i grwpiau penodol megis myfyrwyr sy'n rhieni a gadawyr gofal fanteisio ar gyfleoedd addysgol

Un o'r bwrsariaethau hyn yw'r **bwrsari i oedolion ifanc sy'n ofalwyr**, ar gyfer myfyrwyr 18 i 25 oed, all fod werth hyd at **£1000**.

Yn 1af ar gyfer 'Gwasanaeth Cyngori' ac yn 2il ar gyfer 'Gwasanaethau Myfyrwyr'

Iechyd a llesiant

Mae PCYDDS yn cydnabod fod angen cefnogaeth ar fyfyrwyr law yn llaw â'u gwaith academaidd, ac o'r herwydd mae gwasanaethau myfyrwyr yn rhoi sylw i ystod amrywiol o wasanaethau iechyd a llesiant:

- **Iechyd Meddwl Gwasanaeth Ymgynghorol**
- Defnyddio'r adnoddau ar-lein ar y **Big White Wall**
- **Gwasanaeth Cwnsela** uchel ei barch

O ofalydd i ofalydd



- Peidiwch â theimlo eich bod ar eich pen eich hun – siaradwch â rhywun, fe fydd rhywun wastad yno i'ch helpu.
- Siaradwch â staff, o leiaf byddwch ar eu radar os yw rhywbeth yn digwydd a bod angen cymorth arnoch.
- Mae grantiau a chefnogaeth ar eich cyfer fel gofalydd – defnyddiwch nhw gan eu bod yno ichi.

- Gwneuthum raglen haf mewn prifysgol a ddangosodd imi y gallwn fynd i brifysgol yn ogystal â chyflawni fy rôl ofalu ac y byddai cefnogaeth ar gael imi. Mae pob cwrs gradd yn wahanol, ac mae rhai'n fwy hyblyg na'i gilydd – felly peidiwch gwneud eich rôl ofalu yn rhwystr.
- Os na roddwch gynnig arni, fyddwch chi byth yn gwybod a gallech ddyfaru hynny am weddill eich bywyd.

Alex, Graddedig, UWTSD



Manylion cyswllt

Prifysgol Cymru:
Y Drindod Dewi Sant
Gwasanaethau Myfyrwyr
Campws Caerfyrddin
Caerfyrddin
SA31 3EP

01267675089

01570424867



I gael mwy o wybodaeth a chefnogaeth cysylltwch â'r Tîm Ymestyn yn Ehangach neu aelod o dîm Gwasanaethau Myfyrwyr



PRIFYSGOL WRECSAM GLYNDŴR

Mae Prifysgol Wrecsam Glyndŵr yn gymuned ddysgu fechan, fywiog, gyfeillgar a chynhwysol sy'n ceisio ysbrydoli pob myfyriwr trwy eu gwneud yn ganolog i bopeth a wnânt. Mae ganddynt gyfleusterau arbenigol ac ystod eang o wasanaethau cymorth i sicrhau bod eu myfyrwyr yn gadael yn raddedigion hyderus.



Pa gefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr?

Cyn dechrau eich cwrs

Mae Prifysgol Wrecsam Glyndŵr yn gweithio mewn partneriaeth gydag **Ymestyn yn Ehangach** i flaenoriaethu gofalwyr ifanc fel rhan o'u rhaglen allestyn helaeth mewn ysgolion a chymunedau. Maent wedi sefydlu perthnasoedd gyda mudiadau sy'n cefnogi gofalwyr ifanc er mwyn adnabod darpar fyfyrwyr a gweithio ar y cyd i sicrhau bod yr holl anghenion yn cael eu diwallu.

Syniad safonol gan ofalydd

Cofiwch ofyn am help! "Ewch i sesiynau cynghori a galw-heibio gan ei bod yn anodd cydbwyso popeth. Gwnewch amser ichi'ch hun, awr yr wythnos hyd yn oed, nad yw'n gysylltiedig â'r brifysgol na gofalu."

Barnwyd fod Prifysgol Wrecsam yn **1af yn y DU am Gynhwysiant Cymdeithasol** yn 2019, gan sicrhau bod addysg uwch ar gael i bawb a chynnig yr hygyrchedd gorau posib i bob myfyriwr o gefndiroedd o bob math.

Yn ystod eich astudiaethau

Mae'r tîm Ehangu Mynediad ym Mhrifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb y mae ganddynt y potensial i gyflawni mewn addysg uwch yn cael y cyfle i wneud hynny.

Mae gan Brifysgol Wrecsam Glyndŵr wasanaethau cymorth penodol yn y meysydd canlynol a fyddai'n ddefnyddiol i ofalwyr yn y Brifysgol:

- **Gwasanaethau Cynhwysiant**, gan gynnwys canolfan asesu
- **Tîm HOLWCH** myfyrwyr all helpu gydag unrhyw ymholiadau, o lety i gefnogaeth gyda gofal iechyd
- **Cymorth Astudio**
- **Gwasanaethau gofal plant** gan gynnwys meithrinfa ar y safle

Mae Prifysgol Wrecsam hefyd yn cynnig cefnogaeth ychwanegol i ofalwyr, sy'n adlewyrchu'r gefnogaeth a gynigir i adawyr gofal a myfyrwyr wedi ymddieithrio ac sy'n cydnabod y rhwystrau posib y gall gofalwyr ifanc eu hwynebu. Gweithiant yn ddiwyd i gael gwared â'r rhwystrau hyn trwy wella gwybodaeth a chodi dyheadau trwy ymweliadau blasu wedi'u teilwra a thrwy gynig cefnogaeth unigol.



Cymorth ariannol

Gall y **tîm Cyllid Myfyrwyr a Chyngor Ariannol** eich cynghori am **gyllid** posibl ar gyfer astudio llawn neu ran-amser, gan gynnwys cyllid ar gyfer astudiaethau ôl-radd; yn ogystal â chynnig **archwiliadau iechyd ariannol** i wneud yn siwr eich bod yn derbyn popeth y mae gennych hawl i'w gael yn ystod eich astudiaethau.

Mae'r tîm hefyd yn cynnig cyngor **cyllidebu** i fyfyrwyr. O awgrymiadau arbed arian i gyfarfodydd cyllidebu un i un, mae cynghorwyr Prifysgol Wrecsam Glyndŵr ar gael i ateb unrhyw gwestiynau.

Manylion cyswllt

Prifysgol Wrecsam Glyndŵr
Ehangu Mynediad
Ffordd Yr Wyddgrug
Wrecsam
LL11 2AH

01978 293342

01978 293484



I gael mwy o wybodaeth a chefnogaeth cysylltwch ag Amber Percy, Cydlynnydd Recriwtio ac Ehangu Mynediad.



Iechyd a llesiant

Mae Prifysgol Wrecsam Glyndŵr wedi ymrwymo i greu amgylchedd cefnogol i bob myfyriwr, trwy ddarparu **gwasanaethau cynhwysiant** megis:

- Cymorth tiwtor un i un
- **Cynghori**
- **Cyngor gofal iechyd**
- **Cymorth anabled** arbenigol a help gyda'ch cais DSA, pe baech ei angen

Nodiadau

